



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 616 (Cy.68)

2008 No. 616 (W.68)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Swyddogion Gorfodi
Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru)
2008

The Civil Enforcement Officers
(Wearing of Uniforms) (Wales)
Regulations 2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer gorfodi tramgwyddau parcio yn sifil. Mae Rhan 6 yn cynnwys pwerau sy'n darparu un fframwaith i wneud rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol orfodi cyfyngiadau parcio ac aros yn sifil, a lonydd bysiau a rhai tramgwyddau y mae a wnelont â thraffig sy'n symud. Bydd y rheoliadau hyn yn disodli pwerau sydd eisoes yn bodoli yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

Part 6 of the Traffic Management Act 2004 ("the 2004 Act") provides for the civil enforcement of parking contraventions. Part 6 includes powers providing a single framework to make regulations for the civil enforcement by local authorities of parking and waiting restrictions, bus lanes and some moving traffic offences. Such regulations will replace existing powers in national legislation.

Mae adran 76 o Ddeddf 2004 yn galluogi awdurdodau lleol i benodi swyddogion gorfodi sifil sy'n ymgymryd â gorfodi tramgwyddau parcio yn sifil. Mae'n darparu bod swyddog parcio a benodwyd o dan adran 63A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn swyddog gorfodi sifil mewn perthynas â thramgwyddau parcio ac y gellir hefyd ei benodi yn swyddog gorfodi sifil mewn perthynas â thramgwyddau traffig ffyrdd eraill sy'n ddarostyngedig i orfodi sifil yn ardal yr awdurdod lleol (y cyfeirir ato yn Neddf 2004 fel yr "*enforcement authority*" ("awdurdod gorfodi") priodol.

Section 76 of the 2004 Act enables the appointment of civil enforcement officers by local authorities undertaking the civil enforcement of traffic contraventions. It provides that a parking attendant appointed under section 63A of the Road Traffic Regulation Act 1984 is a civil enforcement officer in relation to parking contraventions and may also be appointed as a civil enforcement officer in relation to other road traffic contraventions subject to civil enforcement in the area of the local authority (referred to in the 2004 Act as the "*enforcement authority*") concerned.

Mae adran 76(3) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gorfodi wisgo lifrai o'r math a bennir gan yr awdurdod gorfodi pan fo'n arfer swyddogaethau penodedig.

Section 76(3) of the 2004 Act requires that civil enforcement officers must wear such uniform as is determined by the enforcement authority when exercising specified functions.

Mae adran 76(4) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gwladol priodol wneud rheoliadau yn pennu'r swyddogaethau hynny na chaiff swyddog gorfodi sifil eu gwneud ond tra bo'n gwisgo lifrai.

Section 76(4) of the 2004 Act requires the appropriate national authority to make regulations, specifying those functions that may only be carried out by a civil enforcement officer whilst in uniform.

Yn unol ag adran 76(4), mae'r Rheoliadau hyn yn pennu, o ran Cymru, yn unol ag adran 76(3) o'r Ddeddf honno, pa rai o swyddogaethau'r swyddogion gorfodi sifil a benodwyd o dan Ran 6 o Ddeddf 2004, na chaiff y swyddogion hynny eu gwneud ond tra bo'n gwisgo lifrai. Pennir y swyddogaethau drwy gyfeirio at ddarpariaethau sy'n rhoi'r swyddogaethau hynny i'r swyddogion gorfodi neu sy'n sail i'w rhoi iddynt.

In accordance with section 76(4), these Regulations specify, in relation to Wales, the functions of civil enforcement officers appointed under Part 6 of the 2004 Act which, in accordance with section 76(3) of that Act, are only to be exercised by such officers when in uniform. The functions are specified by reference to provisions by or under which the functions are conferred on civil enforcement officers.

2008 Rhif 616 (Cy.68)

2008 No. 616 (W.68)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Rheoliadau Swyddogion Gorfodi
Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru)
2008**

**The Civil Enforcement Officers
(Wearing of Uniforms) (Wales)
Regulations 2008**

Gwnaed 6 Mawrth 2008
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 10 Mawrth 2008
Yn dod i rym 31 Mawrth 2008

Made 6 March 2008
*Laid before the National
Assembly for Wales* 10 March 2008
Coming into force 31 March 2008

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 76(4) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred upon the National Assembly for Wales by section 76(4) of the Traffic Management Act 2004(1) and now vested in them (2), hereby make the following Regulations:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008; deuant i rym ar 31 Mawrth 2008 ac maent yn gymwys i Gymru.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Civil Enforcement Officers (Wearing of Uniforms) (Wales) Regulations 2008, they come into force on 31 March 2008 and apply in relation to Wales.

(2) In these Regulations "the 2004 Act" ("*Deddf 2004*") means the Traffic Management Act 2004.

Swyddogaethau penodedig

2.—(1) Mae pob swyddogaeth a roddir i swyddogion gorfodi gan y deddfiadau a bennir ym mharagraff (2) neu oddi tanynt yn swyddogaeth ddynodedig at ddibenion adran 76(3)(a) o Ddeddf 2004.

- (2) Y deddfiadau hynny yw—
- (a) adran 78(2)(a) a (b) o Ddeddf 2004;
 - (b) adran 79 o Ddeddf 2004; ac

Specified functions

2.—(1) All functions conferred on civil enforcement officers by or under the enactments specified in paragraph (2) are specified for the purposes of section 76(3)(a) of the 2004 Act.

- (2) Those enactments are —
- (a) section 78(2)(a) and (b) of the 2004 Act;
 - (b) section 79 of the 2004 Act; and

(1) 2004 p. 18.

(2) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(1) 2004 c. 18.

(2) The functions of the National Assembly for Wales under the Traffic Management Act 2004 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

(c) adran 99 o Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1).

(c) section 99 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1).

Ieuan Wyn Jones

Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

6 Mawrth 2008

6 March 2008

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 99 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), Atodlen 4, paragraff 32, Atodlen 8. Cafodd swyddogaethau o dan adran 99 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (OS 2004/3044) gydag eithriadau mewn perthynas â'r rhan honno o draffordd yr M4 a elwir "*the New Toll Plaza area*" a "*the new Bridge*" fel y'i diffinnir yn adran 39(1) o Ddeddf Pontydd Hafren 1992 (p.3) a'r rhan honno o'r ffordd a adeiladwyd gan y Gweinidog Trafnidiaeth a ddisgrifir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cefnffordd Man i'r Gogledd o Almondsbury - Man i'r De o Haysgate 1947 (O.S. 1947/1562) ac y cyfeirir ati yn Gorchymyn fel "*the new road*".

(1) 1984 c. 27; section 99 was amended by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), Schedule 4, paragraph 32, Schedule 8. Functions under section 99 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (SI 2004/3044) with exceptions in relation to that part of the M4 motorway known as "*the New Toll Plaza area*" and "*the new Bridge*" as defined in section 39(1) of the Severn Bridges Act 1992 (c.3) and that part of the road constructed by the Minister of Transport along the line described in Schedule 1 to the North of Almondsbury-South of Haysgate Trunk Road Order 1947 (S.I. 1947/1562) and referred to in that Order as "*the new road*".

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W232/03/08

ON